


**Mererid Hopwood**

**Y Sgriblwyr Cymraeg** CYNLLUN  
GWERS



## **CANTRE'R GWAELOD/ BODDI MAES GWYDDNO**

**DWI'N GWELD Â'M LLYGAD BACH I**

Clymu gyda  
Chwricwlwm  
2020

O'r Pedwar Diben, y ddau isod yw'r rhai amlycaf i gael eu datblygu yn y wers hon; cynorthwyo'r disgyblion i ddod yn:

- gyfranwyr mentrus, creadigol
- ddinasyddion egwyddorol.

### **Meysydd Dysgu a Phrofiad**

- leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (creu darn o lenyddiaeth; datblygu geirfa)
- Dyniaethau (erydiad tir a hanes Cymru)
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg (dyddiad carbon, creu ffilm)
- lechyd a Lles (cydymdeimlo/empathi)
- Celfyddydau mynegiannol (ymateb a myfyrio)

### **BETH?**

Beth fydd y  
disgyblion yn ei  
ddysgu?

- I. Sut mae llunio cerdd drwy graffu ar y tirlun – yn weledol ac yn glywedol.
  - i) Manteision a phwysigrwydd sylwgarwch wrth greu celfyddyd
  - ii) Sut mae canolbwyntio ar y synhwyrau (yn benodol, clywed a gweld) yn gallu creu delweddau
  - iii) Elfennau'r gynghanedd



## SUT?

Sut byddaf i'n  
dysgu hyn iddyn  
nhw?

1. Annog y disgyblion i wyllo'r ffilm yn annibynnol.
2. Yna, trafod y ffilm ar y cyd (yn yr ystafell ddosbarth neu yn rhithiol) gan ystyried y cwestiynau hyn:
  - i) Beth ry'n ni'n ei wybod am leoliad y ffilm?
  - ii) Beth yw cefndir y chwedl sydd yn y ffilm?
  - iii) Gyda phwy ry'n ni'n cydymdeimlo?
  - iv) Beth yw'r cysylltiad rhwng y darn graffiti a welwyd ar ddechrau'r ffilm â'r chwedl?
  - v) Beth ry'n ni'n ei wybod am hanes Tryweryn?
  - vi) Ydyn ni'n gallu meddwl am esiamplau eraill o gymunedau/cymdogaethau sydd wedi colli eu cartrefi?
  - vii) Sut brofiad fyddai cael ein danfon o'n catrefi, tybed?
3. Yna, cyd-wyllo'r ffilm gan stopio i 'graffu' ar yr hyn a welir ac a glywir.
4. Yn olaf, annog y disgyblion i geisio cysylltu'r geiriau sy'n cyfleu yr hyn a glywir ac a welir drwy gyflwyno elfennau:
  - i) Cyflythrennu
  - ii) Odli
  - iii) Cynghanedd.



## SUT?

Suf byddaf i'n gwybod beth maen nhw wedi ei ddysgu?

Bydd y disgyblion yn dewis tirlun o'u cynefin ac yn llunio cerddi neu stori fer eu hunain gan roi ar waith y technegau a ddysgwyd uchod:

- Rhoi amser i graffu.
- Creu delwedd drwy gyfuno elfennau 'annisgwyl'.
- Cyflythrennu, cynganedd (+ odl, os ydynt yn creu cerddi).

## BETH NESAF?

Sut allwn ni ymestyn y gwaith hwn?

1. Gellid edrych ar gerddi gan feirdd eraill am gynefin gan ystyried y delweddau mae'r geiriau'n eu creu.
2. Gellid craffu ar 'sain' y gerdd a beth sy'n cyfrannu at greu hwnnw.
3. Gellid annog y disgyblion i greu ffilm o'u cerddi eu hunain (gan ddefnyddio apiau ffôn ayb).

Noddwyd y cynllun gwers gan Brifysgol Aberystwyth



PRIFYSGOL  
**ABERYSTWYTH**  
UNIVERSITY

